Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG48363**

# Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion ac Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar y Rheolau Ymddygiad Proffesiynol ar gyfer Cymeradwywyr Rheoli Adeiladu Cofrestredig (Cymru)

Hydref 2023

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru,
WG48363, ISBN Digidol 978-1-83504-826-9

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 1
2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg ..... 1
3. Ymdrin â'r ymatebion ..... 1
4. Ymatebion i'r ymgynghoriad – Crynodeb Byr ..... 2
   - Safon 1: Cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoleiddiol a phroffesiynol ..... 2
   - Safon 2: Gofynion busnes ..... 4
   - Safon 3: Cymhwysedd proffesiynol a datblygiad proffesiynol parhaus ..... 6
   - Safon 4: Safon gwasanaeth ..... 8
   - Safon 5: Ymgysylltu â chleientiaid ..... 9
   - Cwestiynau cyffredinol ..... 12
5. Y Camau Nesaf ..... 14

# 1. Cyflwyniad

**1.1** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Rheolau Ymddygiad Proffesiynol arfaethedig ar gyfer Cymeradwywyr Rheoli Adeiladu Cofrestredig (Cymru). Pan fydd y Rheolau Ymddygiad Proffesiynol wedi'u gwneud, byddant yn gymwys i bawb sy'n dymuno cofrestru'n Gymeradwywr Rheoli Adeiladu.

# 2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg

2.1 Cafwyd wyth ymateb i'r ymgynghoriad. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad nodi i ba un o'r 12 o fathau o sefydliadau a nodwyd ar y ffurflen yr oedd eu sefydliad yn perthyn (gan gynnwys opsiwn 'arall' hunanddynodedig). Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymatebion a gyflwynwyd gan bob sector.

| **Math o Sefydliad: Dewiswch un o'r canlynol:** | **Dewiswch un** |
|---|---|
| Adeiladwr / Datblygwr | |
| Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | |
| Awdurdod Lleol | 4 |
| Arolygydd Rheoli Adeiladu Cymeradwy | 1 |
| Arolygydd Adeiladu sy'n Arolygydd Cymeradwy | |
| Arolygydd Adeiladu ALI | |
| Pensaer | |
| Gweithgynhyrchydd/cadwyn gyflenwi | |
| Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | |
| Corff proffesiynol | 1 |
| Meddiannydd/Preswylydd Adeilad | |
| Parti arall â diddordeb (rhowch fanylion) | 2 |

# 3. Ymdrin â'r ymatebion

3.1 Darparwyd ffurflen ymateb safonol er hwylustod, ond lle nad oedd ymatebwyr wedi defnyddio'r ffurflen, mae'r sylwadau wedi cael eu priodoli i'r cwestiwn mwyaf priodol.

3.2 Lle nad oedd ymatebwyr wedi ateb drwy ddefnyddio'r ymatebion safonol a gynigiwyd ond roeddent wedi nodi safbwynt eglur yn eu hateb, mae'r rhain wedi cael eu priodoli i'r ymateb hwnnw yn y dadansoddiad ystadegol. Er enghraifft, lle y defnyddiodd ymatebydd yr ymadrodd 'Rwy'n cefnogi'r cynnig', cafodd ei ymateb ei nodi'n ateb cadarnhaol. Lle nad oedd ymateb yn glir, cafodd atebion eu nodi'n rhai 'dim ymateb' yn y dadansoddiad ystadegol a chafodd yr ymatebion eu cynnwys yn y crynodeb o'r sylwadau.

# 4. Ymatebion i'r ymgynghoriad – Crynodeb Byr

## Safon 1: Cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoleiddiol a phroffesiynol

**Cwestiwn 1**
A yw geiriad y safon yn eglur?

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 6 | 75% |
| **Nac ydy** | 2 | 25% |
| **Ddim yn siŵr** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.1. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod y geiriad yn eglur. Nododd un ymatebydd fod angen mwy o arweiniad ac eglurder. Awgrymodd ymatebydd arall y dylid nodi'n glir ar ddechrau'r Rheolau Ymddygiad Proffesiynol beth yw ystyr y gair 'chi', oherwydd bwriedir i'r Rheolau Ymddygiad Proffesiynol gael eu rhoi ar waith gan gwmnïau.

**Cwestiwn 2**
A oes unrhyw faterion sydd ar goll neu nas cwmpesir yn ddigonol yn eich barn chi o ran Cymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoleiddiol a phroffesiynol?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 4 | 50% |
| **Nac oes** | 3 | 37.5% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 12.5% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.2. Cymysg fu'r ymateb i'r cwestiwn hwn. Nododd ymatebwyr fod angen mwy o arweiniad ac eglurder.

4.3. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol pe bai cyfeiriad at ddogfen Flex 8670 (cymwyseddau proffesiynol) y Sefydliad Safonau Prydeinig.

**Cwestiwn 3**
Wrth gyfeirio at Safon 1, sut y byddech yn diffinio ‘gweithgareddau gwaith’?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.4. Cafwyd sylwadau gan bob un o'r ymatebwyr.

4.5. Un thema gyffredin oedd unrhyw faes gwaith sy'n ymwneud â chadarnhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Adeiladu.

**Cwestiwn 4**
A oes unrhyw ymddygiadau yn safon 1 y byddai'n anodd i Gymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig gydymffurfio â nhw, yn eich barn chi?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 1 | 12.5% |
| **Nac oes** | 7 | 87.5% |
| **Ddim yn siŵr** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.6. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw ymddygiadau yn y safon y byddai'n anodd i Gymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig gydymffurfio â nhw.

4.7. Nododd un ymatebydd y dylid ystyried estyn y tri diwrnod gwaith i ymateb i achos o dorri'r rheolau, er mwyn rhoi digon o amser i'r Cymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig gael cyfle i ymchwilio.

4.8. Gofynnwyd am fwy o eglurder ynghylch pa ddull o hysbysu'r rheoleiddiwr a fydd yn cael ei roi ar waith, ac am ganllawiau ategol ar yr hyn a fyddai'n gyfystyr â gweithred a fyddai'n dwyn anfri ar y proffesiwn.

**Cwestiwn 5**
Ar ba agweddau ar gydymffurfio â'ch rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoleiddiol a phroffesiynol y byddai'n fuddiol cael canllawiau pellach? Esboniwch.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.9. Gwnaeth pob un o'r ymatebwyr sylwadau, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn gofyn am fwy o arweiniad neu eglurder ynglŷn â thermau penodol.

4.10. Ymhlith yr awgrymiadau penodol roedd diwygio'r geiriad yn adran 1.7 sy'n cyfeirio at bwerau rheoleiddio, lle nad oes gan Gymeradwywyr Rheoli Adeiladu Cofrestredig unrhyw bwerau rheoleiddio, ac eglurder ynglŷn â'r term ‘safonau'r diwydiant’ yn 1.3.

4.11. Gofynnodd un o'r ymatebwyr am i derfynau amser gael eu hychwanegu ar gyfer ceisiadau unioni neu geisiadau dychweliad.

**Ymateb i Gwestiynau 1 – 5**

4.12. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried pob un o'r awgrymiadau wrth adolygu'r Rheolau Ymddygiad Proffesiynol ac wedi gwneud newidiadau perthnasol

megis newid y term “pwerau rheoleiddio” i rywbeth mwy priodol i Gymeradwywyr Rheoli Adeiladu Cofrestredig, megis “y swyddogaethau rheoli adeiladu”.

4.13. Mae termau sy'n amwys wedi cael eu newid, er enghraifft dileu'r term ‘safonau'r diwydiant’ a defnyddio rhywbeth mwy penodol megis “rheoliadau adeiladu a chanllawiau statudol”.

4.14. Byddwn yn parhau i ystyried a ddylid cyhoeddi canllawiau i helpu'r broses o roi'r Rheolau Ymddygiad Proffesiynol ar waith.

## Safon 2: Gofynion busnes

**Cwestiwn 6**
A yw geiriad y safon yn eglur?

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 6 | 75% |
| **Nac ydy** | 2 | 25% |
| **Ddim yn siŵr** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.15. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod geiriad y safon yn eglur. Nododd un ymatebydd fod angen mwy o arweiniad ac eglurder.

**Cwestiwn 7**
A oes unrhyw faterion a risgiau sydd ar goll neu nas cwmpesir yn ddigon yn eich barn chi o ran cydymffurfio â gofynion busnes perthnasol?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 4 | 50% |
| **Nac oes** | 3 | 37.5% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 12.5% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.16. Cymysg fu'r ymateb i'r cwestiwn hwn.

4.17. Nododd un ymatebydd fod angen mwy o arweiniad ac eglurder.

4.18. Roedd nifer o ymatebwyr am sicrhau bod cysondeb rhwng y Rheolau Ymddygiad Proffesiynol a'r Rheolau Safonau Gweithredol.

4.19. Awgrymwyd y dylid cynnwys rhai o'r safonau perfformiad Rheoli Adeiladu yn y Rheolau Ymddygiad Proffesiynol.

**Cwestiwn 8**
A oes unrhyw ymddygiadau yn y safon y byddai'n anodd i Gymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig gydymffurfio â nhw, yn eich barn chi?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 2 | 25% |
| **Nac oes** | 6 | 75% |
| **Ddim yn siŵr** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.20. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno. Nododd un ymatebydd fod angen mwy o arweiniad ac eglurder.

**Cwestiwn 9**
A oes unrhyw senarios lle y byddech yn credu y byddai'n briodol rheoli achosion o wrthdaro buddiannau?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 4 | 50% |
| **Nac oes** | 2 | 25% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 25% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.21. Cymysg fu'r ymateb.

4.22. Gwnaeth tri ymatebydd sylwadau a oedd yn manylu ar amrywiaeth o senarios gwahanol.

4.23. Awgrymodd un sylw fod angen mwy o eglurder ynglŷn â'r diffiniad o wrthdaro buddiannau.

**Cwestiwn 10**
Ar ba agweddau ar gydymffurfio â gofynion busnes perthnasol y byddai'n fuddiol cael canllawiau pellach? Esboniwch.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.24. Gwnaeth tri ymatebydd sylwadau manwl ar y cwestiwn hwn, gan restru nifer o feysydd lle mae angen mwy o arweiniad yn eu barn nhw.

**Ymateb i Gwestiynau 6 – 10**

4.25. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod thema gyffredin yn codi drwy'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad lle y gofynnir am fwy o arweiniad ac eglurder. Mae'r holl bwyntiau a godwyd wedi cael eu hystyried mewn adolygiad llawn o'r Rheolau Ymddygiad Proffesiynol.

4.26. Byddwn yn ystyried datblygu canllawiau ar reoli'r risg o wrthdaro buddiannau wrth gynnal busnes.

## Safon 3: Cymhwysedd proffesiynol a datblygiad proffesiynol parhaus

**Cwestiwn 11**
A yw geiriad y safon yn eglur?

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 5 | 62.5% |
| **Nac ydy** | 3 | 37.5% |
| **Ddim yn siŵr** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.27. Cymysg fu'r ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r sylwadau a wnaed yn gofyn am ragor o eglurder ac arweiniad ar y cyfan.

**Cwestiwn 12**
A oes unrhyw faterion neu risgiau sydd ar goll neu nas cwmpesir yn ddigonol yn eich barn chi o ran cynnal cymhwysedd proffesiynol a datblygiad proffesiynol parhaus?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 3 | 37.5% |
| **Nac oes** | 4 | 50% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 12.5% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.28. Cymysg fu'r ymateb i'r cwestiwn hwn.

4.29. Mae'r sylwadau a wnaed yn gofyn am ragor o eglurder ac arweiniad ar y cyfan.

4.30. Awgrymwyd hefyd y dylid croesgyfeirio at y dogfennau eraill.

**Cwestiwn 13**
A oes unrhyw ymddygiadau yn y safon y byddai'n anodd i Gymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig gydymffurfiio â nhw yn eich barn chi?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 1 | 87.5% |
| **Nac oes** | 7 | 12.5% |
| **Ddim yn siŵr** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.31. Ym marn y mwyafrif o'r ymatebwyr, nid oedd unrhyw ymddygiadau yn y safon y byddai'n anodd i Gymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig gydymffurfio â nhw.

4.32. Nododd un ymatebydd fod angen mwy o arweiniad ac eglurder ynglŷn â gofynion DPP yn benodol cyn y gellid cadarnhau bod modd cydymffurfio â'r rheol y cyfeirir ati yn 3.6.

**Cwestiwn 14**
Ar ba agweddau ar gynnal cymhwysedd proffesiynol a datblygiad proffesiynol parhaus y byddai'n fuddiol cael canllawiau pellach? Esboniwch.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.33. Ymhlith y sylwadau a wnaed gofynnwyd am fwy o eglurder ac arweiniad, gan gynnwys templedi, a gwnaed nifer o bwyntiau penodol ynglŷn ag ystyr goruchwylio.

4.34. Codwyd cwestiwn ynglŷn â diffyg cysondeb rhwng y Cod Ymddygiad arfaethedig a'r Rheolau Ymddygiad Proffesiynol o ran cyfnodau cadw dogfennau.

**Ymateb i Gwestiynau 11 – 15**

4.35. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod thema gyffredin yn codi drwy'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad lle y gofynnir am fwy o arweiniad ac eglurder. Caiff yr holl bwyntiau a godwyd eu hystyried mewn adolygiad llawn o'r Rheolau Ymddygiad Proffesiynol.

4.36. Mae canllawiau ar ddatblygu gyrfa, llwybrau, DPP, gofynion cofnodi a goruchwylio yn cael eu paratoi fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Arolygwyr Adeiladau (FfCAA) a dilysu cymhwysedd.

4.37. Mae gwaith wedi cael ei wneud i ddangos y berthynas rhwng y Cod Ymddygiad, y Rheolau Ymddygiad Proffesiynol a'r Rheolau Safonau Gweithredol a'r gwahaniaethau rhyngddynt ac i sicrhau cysondeb lle y bo'n briodol, gan gynnwys cysoni'r cyfnod cadw dogfennau. Mae'r Cod Ymddygiad a'r Rheolau Ymddygiad Proffesiynol bellach yn nodi bod yn rhaid i chi gadw cofnodion penodol am 15 mlynedd.

## Safon 4: Safon gwasanaeth

**Cwestiwn 15**
A yw geiriad y safon yn eglur?

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 6 | 75% |
| **Nac ydy** | 2 | 25% |
| **Ddim yn siŵr** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.38. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod geiriad y safon yn eglur.

4.39. Roedd y sylwadau a wnaed yn gofyn am fwy o eglurder ac arweiniad.

**Cwestiwn 16**
A oes unrhyw faterion/risgiau sydd ar goll neu nas cwmpesir yn ddigonol yn eich barn chi o ran safon gwasanaeth?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 4 | 50% |
| **Nac oes** | 3 | 37.5% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 12.5% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.40. Cafwyd rhaniad yn yr ymatebion yn hyn o beth. Roedd y sylwadau a wnaed yn gofyn am fwy o eglurder ac arweiniad.

4.41. Mewn un sylw, soniwyd am rôl y Syrfëwr Rheoli Adeiladu fel un a allai roi cyngor ac arweiniad ar yr amod nad oedd yn ymgymryd â rôl dylunydd.

**Cwestiwn 17**
A oes unrhyw ymddygiadau yn y safon y byddai'n anodd i Gymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig gydymffurfio â nhw yn eich barn chi?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 4 | 50% |
| **Nac oes** | 4 | 50% |
| **Ddim yn siŵr** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.42. Cafwyd rhaniad yn yr ymatebion yma, gyda hanner yr ymatebwyr yn nodi bod rhai ymddygiadau yn y safon y byddai'n anodd i Gymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig gydymffurfio â nhw yn eu barn nhw.

4.43. Roedd y sylwadau gan rai ALlau yn cyfeirio at anallu i reoli'r llwyth gwaith.

4.44. Roedd sylwadau gan y sector preifat yn nodi y dylai'r safonau fod yn ddigon hyblyg i alluogi Cymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig i fabwysiadu prosesau ac arferion addas sy'n briodol ar gyfer y llwyth gwaith a'r amrywiaeth o brosiectau y mae'n ymdrin â nhw.

**Cwestiwn 18**
Ar ba agweddau ar safon gwasanaeth y byddai'n fuddiol cael canllawiau pellach? Esboniwch.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.45. Yn y sylwadau a wnaed gofynnwyd am fwy o eglurder ac arweiniad.

**Ymateb i Gwestiynau 15 – 18**

4.46. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod thema gyffredin yn codi drwy'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, h.y. y gofynnir am fwy o arweiniad ac eglurder. Mae'r holl bwyntiau a godwyd wedi cael eu hystyried mewn adolygiad llawn o'r Rheolau Ymddygiad Proffesiynol.

4.47. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y sector preifat a'r sector cyhoeddus yn wynebu problemau gwahanol ac mae wedi ystyried hyn wrth adolygu'r safonau a bennir.

## Safon 5: Ymgysylltu â chleientiaid

**Cwestiwn 19**
A yw geiriad yr holl safonau yn eglur?

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 3 | 37.5% |
| **Nac ydy** | 4 | 50% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 12.5% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.48. Roedd rhaniad yn yr ymatebion a gafwyd yma.

4.49. Roedd hanner yr ymatebwyr am gael rhagor o eglurder ynglŷn â'r safon hon.

**Cwestiwn 20**
A oes unrhyw faterion a risgiau sydd ar goll neu nas cwmpesir yn ddigonol yn eich barn chi o ran ymgysylltu â chleientiaid?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 3 | 37.5% |
| **Nac oes** | 4 | 50% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 12.5% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.50. Cymysg fu'r ymateb.

4.51. Gofynnwyd am fwy o arweiniad ac eglurder.

4.52. Nododd un ymatebydd y bydd set safonol o delerau ac amodau yn fuddiol er mwyn helpu i sefydlu parhad lefel gwasanaeth ofynnol.

**Cwestiwn 21**
A oes unrhyw ymddygiadau yn y safon y byddai'n anodd i Gymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig gydymffurfio â nhw yn eich barn chi?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 3 | 37.5% |
| **Nac oes** | 4 | 50% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 12.5% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.53. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod rhai ymddygiadau yn y safon y byddai'n anodd i Gymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig gydymffurfio â nhw yn eu barn nhw.

4.54. Roedd y rhain yn cynnwys ychydig o bwyntiau yn y safonau sy'n ddichonadwy mewn egwyddor ond y gellid eu newid rywfaint i wneud mwy o synnwyr, er enghraifft: Mae Rheol 5.4 yn gofyn am unigolyn a enwyd ond gallai hyn newid drwy gydol oes prosiect. Efallai y byddai 5.5 yn anodd ei chymhwyso os nad yw'r cleient wedi hysbysu'r Cymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig am unrhyw newidiadau yn ei raglen o ran amser/cost. Awgrymwyd y gellid pennu safon fwy rhesymol yn nodi ‘pan fyddwch yn cael gwybod am unrhyw newidiadau…’ neu eiriad tebyg.

**Cwestiwn 22**
Ar ba agweddau ar ymgysylltu â chleientiaid y byddai'n fuddiol cael canllawiau pellach? Esboniwch

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.55. Gwnaeth pob un o'r ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer mwy o arweiniad. Roedd hyn yn cynnwys darparu templedi a chanllawiau mewn perthynas â chadw dogfennau.

**Cwestiwn 23**
A ydych chi'n credu bod yr egwyddorion a'r safonau yn pennu lefel briodol o ymddygiad proffesiynol?

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 3 | 37.5% |
| **Nac ydw** | 2 | 25% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 37.5% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.56. Gwnaeth pob un o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn, a oedd yn ymwneud yn bennaf â'r angen am gysondeb rhwng y Rheolau Ymddygiad Proffesiynol, y Cod Ymddygiad a'r Rheolau Safonau Gweithredol.

4.57. Yn un o'r sylwadau, rhybuddiwyd rhag cynnwys eitemau nad ydynt o bosibl yn gwbl berthnasol i ymarfer proffesiynol moesegol, a all arwain at ganlyniad anfwriadol.

**Ymateb i Gwestiynau 19 – 24**

4.58. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod thema gyffredin yn codi drwy'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad lle y gofynnir am fwy o gysondeb. Ystyriwyd hyn yn ystod yr adolygiad llawn o'r safonau a'r codau.

4.59. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn darparu templedi na chanllawiau briffio gan mai cyfrifoldeb y sefydliad yw sicrhau ei fod yn cyrraedd y safonau, a bydd angen i'r ffordd y mae pob sefydliad yn dangos tystiolaeth o hyn amrywio, yn dibynnu ar strwythur y sefydliad.

4.60. O ran y pwyntiau ynglŷn â darparu gwybodaeth yn Safon 5 ac Atodiad 2. Nid rhestr derfynol yw hon a gellir ychwanegu ati os bydd y Cymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig yn teimlo bod angen gwneud hynny. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr neu asiantau yn cael eu hysbysu am yr holl wybodaeth ar y rhestr hon ac, er enghraifft, os bydd Arolygydd Adeiladu Cofrestredig yn newid yn ystod oes prosiect, fod yr ymgeisydd/asiant yn cael gwybod mewn modd amserol.

## Cwestiynau cyffredinol

**Cwestiwn 24**
A oes unrhyw safonau eraill y dylid eu cynnwys yn y rheolau ymddygiad proffesiynol?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 3 | 37.5% |
| **Nac oes** | 3 | 37.5% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 25% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.61. Cymysg fu'r ymatebion, ond ni wnaed unrhyw sylwadau i ategu'r ymatebion.

**Cwestiwn 25**
A oes unrhyw beth yn y rheolau ymddygiad proffesiynol sy'n atal Cymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig rhag cofrestru yn eich barn chi?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 1 | 12.5% |
| **Nac oes** | 6 | 75% |
| **Ddim yn siŵr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 12.5% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.62. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oedd dim yn y rheolau ymddygiad proffesiynol a oedd yn atal Cymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig rhag cofrestru yn eu barn nhw.

4.63. Cododd un ymatebydd bryderon ynglŷn â diffyg eglurder yn y dogfennau a gofynnodd hefyd am fwy o hyblygrwydd yn y safonau.

**Cwestiwn 26**
A ydych chi'n credu y bydd unrhyw agwedd ar y Rheolau Ymddygiad Proffesiynol yn cael effaith niweidiol ar y rhai â nodweddion gwarchodedig? (Y nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol).

**Cwestiwn 27**
Os dewiswyd ydw, dywedwch wrthym pa agwedd ar y polisi hwn fydd yn cael effaith niweidiol ar y rhai â nodweddion gwarchodedig.

**Cwestiwn 28**
Ar gyfer pob agwedd a nodwyd gennych, dywedwch wrthym ar bwy y bydd y polisi hwn yn cael effaith niweidiol a sut.

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 2 | 25% |
| **Nac ydw** | 5 | 62.5% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 12.5% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.64. Cymysg fu'r ymatebion a gafwyd. Yn un o'r sylwadau, nodwyd bod oedran yn bryder o ran dangos tystiolaeth o gymhwysedd, a all effeithio ar y bobl hŷn yn y diwydiant.

**Cwestiwn 29**
Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.65. Nid oedd unrhyw sylwadau i'w hystyried.

**Cwestiwn 30**
Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid y polisïau arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nodwch yma:

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.66. Nid oedd unrhyw sylwadau i'w hystyried.

**Cwestiwn 31**
Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle gwag hwn i roi gwybod amdanynt. Nodwch yma:

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.67. Rhoddodd dau o'r pedwar ymatebydd ateb i'r cwestiwn hwn. Roedd y materion a godwyd yn ailadrodd y rhai a grybwyllwyd yn gynharach yn yr ymgynghoriad

ac yn cyfeirio at eglurder, arweiniad a chyfnodau cadw dogfennau. Cafwyd hefyd un ymateb pellach a oedd yn sôn am ohirio'r dyddiad gweithredu.

**Ymateb i Gwestiynau 24 – 31**

4.68. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod thema gyffredin yn codi drwy'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad lle y gofynnir am fwy o gysondeb. Ystyriwyd hyn yn ystod yr adolygiad o'r cod.

4.69. Mae cymhwysedd y rhai sy'n gweithio ym maes rheoli adeiladu yn allweddol o ran sicrhau system gadarn. Rydym wedi ystyried hyn ynghyd â'r angen i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldebau wrth baratoi'r Rheolau Ymddygiad Proffesiynol, a byddwn yn parhau i wneud hynny os byddwn yn cynnal rhagor o adolygiadau.

4.70. Mae'n debygol y caiff y Rheolau Ymddygiad Proffesiynol hyn eu cyhoeddi chwe mis cyn eu rhoi ar waith. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod hyn yn ddigon o amser i baratoi ar eu cyfer.

# 5. Y Camau Nesaf

5.1. Caiff y Rheolau Ymddygiad Proffesiynol eu llunio'n derfynol yn unol ag ymateb y Llywodraeth uchod a'u cyhoeddi yn yr hydref.

5.2. Mae cyflwyno'r Rheolau Ymddygiad Proffesiynol yn ofyniad newydd: mae canllawiau ategol yn cael eu datblygu a chânt eu cyhoeddi.

5.3. Pan fyddant wedi'u cyflwyno, bydd Gweinidogion Cymru yn adolygu'r Rheolau Ymddygiad Proffesiynol o bryd i'w gilydd lle y bo'n angenrheidiol ac yn briodol, gan ystyried safbwyntiau'r proffesiwn a rhanddeiliaid eraill.